# y dinesydd

Mawrth 1999 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 244


# Gŵyl ac Eisteddfod

**Gŵyl Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**

Eleni eto am ddeuddydd, roedd Gerddi Sophia yn fôr o goch, gwyrdd, melyn a glas wrth i lysoedd Illtud, Dyfrig, Dewi a Theilo gystadlu yn erbyn ei gilydd yng Ngŵyl Glantaf.

Ddydd Iau, 25 Chwefror, cynhaliwyd diwrnod o chwaraeon amrywiol megis tennis bwrdd, nofio, rygbi, hoci, pêl-fasged a mwy. Y llys buddugol ar y dydd Iau oedd Dyfrig.

Ddydd Gwener, 26 Chwefror, cynhaliwyd yr Eisteddfod a chafwyd cystadlu brwd ar gystadlaethau megis Dynwared Grŵp Pop, Cân Almaeneg a Ffrangeg, yn ogystal â'r cystadlaethau traddodiadol megis unawd, deuawd, parti merched a chôr.

Llys buddugol yr Eisteddfod eleni oedd Teilo a'u capten gweithgar Eleri James a gipiodd y Gadair a'r Tlws Saesneg. Dyma'r tro cyntaf yn hanes yr ysgol i'r un disgybl ennill y ddwy gystadleuaeth. Daniel Hefin o Flwyddyn 8 a enillodd Dlws yr Ysgol Isaf.



Gorsedd a phrif enillwyr cystadlaethau llenyddol Gŵyl Glantaf 1999. *Blaen:* Elin Lewis, Huw Thomas (prifathro), Eleri James, Daniel Hefin, Aled Gwyn (beirniad); *Canol:* Bethan Lewis, Olivia Simove, Gwennan Beasley, Rhiannon Michael, Melanie Morris, Nichola Birch; *Cefn:* Jonathan Shapey, Aled Guy, Simon Jones, Gareth Lannigan, Faye Brookman. *Llun: Robin Griffith.*

Roedd hi'n braf iawn croesawu yn ôl Alun a Meinwen Guy fel y beirniaid Cerdd a Llefaru. Diolch iddyn nhw ac i Aled Gwyn, beirniad cystadleuaeth y Gadair, am eu cymwynas i Ysgol Glantaf.

**Eisteddfod Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**

Cawsom wledd o ddiwylliant Cymraeg ar ddiwrnod ein heisteddfod gyntaf yn neuadd yr ysgol. Mae'n amlwg bod y disgyblion wedi bod yn ymarfer yn galed ac wedi ymateb i'r llu o gystadlaethau â brwdfrydedd.



Penderfynwyd cynnwys cystadlaethau ffurfiol megis y tlws cerdd am y perfformiad offerynnol gorau, a chystadlaethau anffurfiol fel y côr chwibanu a'r sgets. Gweithiodd yr athrawon yn galed i sicrhau safonau uchel ac fe achubodd pob disgybl ar y cyfle i gymeryd rhan mewn o leiaf un gystadleuaeth.

Enillwyr yr Eisteddfod oedd llys Curig. Roedd Mr Iwan Rowlands, sef pennaeth y llys, a gweddill staff y llys yn falch iawn wrth gwrs. Cafodd y llys nifer o bwyntiau ychwanegol gan mai Matthew Burnett oedd llenor Saesneg y flwyddyn. Dywedodd Mrs Rhian Griffiths, pennaeth Saesneg yr ysgol, fod ei waith yn dangos aeddfedrwydd mawr ac yn dangos potensial aruthrol at y dyfodol. Enillwyd y tlws cerdd eleni gan Mali Llywelyn. Gwrandawodd Ms Siân Ball, Mrs Siriol Wilde, Miss Eurgain Dafydd a Mr Geraint Rees ar dros hanner cant o offerynwyr yn ystod y dydd ac roedd y safon yn uchel dros ben. Serch hynny, fe chwaraeodd Mali jazz ar y delyn a Debussy ar y piano, ac fe ddangosodd ddoniau aruthrol. Mae'n amlwg bod Mali yn mynd i fod yn gerddor o fri. > tud 8

Miss Eurgain Dafydd, Mr Iwan Rowlands, Matthew Burnett ac Alex Clatworthy

**Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol *Y Dinesydd* nos Iau, 20 Mai 1999**
am 7.30pm yng Nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina.
Dewch yn llu i gefnogi eich papur bro!

***Sylwer!*** ***Pwysig!***

# Y Dinesydd

**Mawrth 1999, Rhif 244.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Ebrill/Mai at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 16 Ebrill:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333080).
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Mrs Siriol Wilde, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 01222-623749)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................

.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................


.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 6** **Mawrth 1999**



**Ar Draws**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | 'Dyma'r ffordd i fro _____ Ar hyd y nos' (Ceiriog). | (9) |
| 5. | Benjamin bach yn dychwel i fod yn rhywun. | (3) |
| 7. | A yw egni yn creu tyfiant? | (4) |
| 8. | Taro y gwyn. Odi mae! | (4, 4) |
| 10. | Blodyn lliw y paent. | (8) |
| 11. | Un mewn galwad i wraig William efallai. | (4) |
| 13. | Chwant dy ben yn Lloegr. | (6) |
| 15. | Bonclust yn dryllio'r corned. | (6) |
| 18. | Llyncu mul yn dawel cyn cymysgu'r uwd. | (4) |
| 19. | 'Gorwedd llwch holl saint yr oesoedd A'r _____ yn dy gôl' (Gwenallt). | (8) |
| 22. | Casgliad o dimau rygbi efallai mewn undeb. | (8) |
| 23. | Gwneud tiwb yn fach iawn. | (4) |
| 24. | Pâr o ychen a phedol. | (3) |
| 25. | Llun tad Rhys yn troi i fyny yng Ngheredigion. | (9) |

**I Lawr**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhywbeth chwerw o'r mwd gore'! | (7) |
| 2. | Dillad bron yn heini. | (5) |
| 3. | Daw awr lan efallai i ledio'r ffordd. | (6) |
| 4. | Tras wych bob yn ail yn peri caddug. | (4) |
| 5. | Brenin y môr i'w weld yng ngorllewin Eifionydd. | (7) |
| 6. | Adar du yr ymennydd Seisnig. | (5) |
| 9. | 'Dros Gymru'n gwlad, O! Dad, dyrchafwn gri, Y winllan wen a roed i'n _______ ni.' (L. Valentine). | (5) |
| 12. | Cryfhau arglwydd yr arogldarth anorffenedig. | (5) |
| 14. | 'Bydd ffyddlon ___ ____, ac mi a roddaf i ti goron y bywyd.' (Datguddiad). | (3,4) |
| 16. | Gwirion! Nid Dewi, os bosib! | (7) |
| 17. | Hen air arall yn gwrthwynebu. | (6) |
| 18. | Llogell - cyrchfan y coch ar y bwrdd. | (5) |
| 20. | Cwrdd profiad yn troi'n swnllyd ar ôl newid ei ddechreuad. | (5) |
| 21. | Darn o'r gwn. | (4) |

**Atebion Croesair 5 (Chwefror 1999)**
**Ar Draws:** 1. Atgyfnerthol; 7.Silwair; 9.Taro; 11.Llinach; 12.Seinio; 14.I'r hafan draw; 18.Amaethu; 20.Farna; 22.Salw; 23.Arglwydd; 24.Cyfeiliorni.
**I Lawr:** 2.Telynor; 3.Nard; 4.Ochain; 5.Esyllt; 6.Coron; 8.Archwaethu; 10.Pendefig; 13.Mas; 15.Athrawon; 16.Pansi; 17.Harddu; 19.Arlwy; 21.Haul.

Derbyniwyd dwsin o geisiadau ond dim ond dau oedd yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfrau at Huana Simpson, Is-y-coed Fach, Llansanwyr, Y Bont-faen. Cafwyd yr ateb cywir arall gan Gwenda Mai Hopkins, Llanisien.

**Cystadleuaeth Mawrth 1999**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 16 Ebrill.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Calendr y Dinesydd

**Llun, 15 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Mwy Na Mwydyn.' Darlith gan Dr Tecwyn Harris (Prifysgol Caerwysg) ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 16 Mawrth**
Cymrodorion y Barri: Mrs Mallt Anderson yn cofio 'neb' mewn cornel cae, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.

**Mawrth, 16 Mawrth**
Plaid Cymru (Gogledd Caerdydd): Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m. Siaradwyr: Ieuan Wyn Jones, A.S., a Jill Evans (Ymgeisydd Ewropeaidd Cymru). Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 17 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Valmai Evans, yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.

**Mercher, 17 Mawrth**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs gan Alun Treharne yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.

**Gwener, 19 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu' gan Alan Llwyd yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.00 p.m.

**Sadwrn, 20 Mawrth**
Sadwrn Siarad yn arbennig i rai sy'n dysgu Cymraeg, yn Sefydliad y Gweithwyr, Oakdale, yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

**Mawrth, 23 Mawrth**
Darlith Goffa G. J. Williams gan yr Athro Hywel Teifi Edwards ar y testun 'Beirdd Cymru yn wynebu 1900', yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.15 p.m. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 26 Mawrth**
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Glantaf: Noson gyda Dafydd Iwan, yn Neuadd Ysgol Glantaf am 8.00 p.m. Tocynnau (£10): 01222-333090.

**Llun, 29 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Darlith gan yr Athro Glyn E. Jones, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Mercher, 31 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: Tro yng nghwmni Allan Cook, yn festri Eglwys y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.

**Mercher, 31 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Cymanfa Ganu, yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.

**Iau, 1 Ebrill**
Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Hardcore Bethesda Fuzz' gan Dyfrig Jones yn Neuadd Llanofer, Treganna am 8.00 p.m. Manylion pellach: (01222) 342022.

**Gwener, 2 Ebrill**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Gwasanaeth Gwener y Groglith yn Eglwys Dewi Sant am 2.00 p.m.

**Sadwrn, 3 Ebrill**
Clwb Ifor Bach: Gig yng nghwmni'r *Tystion*, *Crac* a *Nar* am 10.00 p.m. Manylion pellach/tocynnau: 01222-232199.

**Mawrth, 13 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Noson Ni', yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Mawrth-Iau, 13-15 Ebrill**
Sasiwn y De, Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cyfarfod yn Salem, Treganna.

**Mercher, 14 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen y Garth: Sgwrs gan John Bevan am dafodiaith Bro Ogwr, yn Neuadd y Pentref, Pen-tyrch, am 8 p.m.

**Gwener, 16 Ebrill**
Cymry'r Wenallt yn cyfarfod yng Nghlwb Rygbi'r Eglwys Newydd, Heol Felindra, am 8 p.m.

**Sul, 18 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cymanfa Ganu dan arweiniad Alun Guy, yn Eglwys Beulah am 8.00 p.m.

**Llun, 19 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch: Cyfarfod ar y cyd â Chymdeithas y Crwys yn neuadd Eglwys Bedr, Dinas Powys, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 20 Ebrill**
Cymrodorion y Barri: Cyfarfod ar y cyd â Chymrodorion Caerdydd yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.

**Mercher, 21 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Prynhawn yng nghwmni Ysgol Mynydd Bychan, yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.

**Mercher, 21 Ebrill**
Cymdeithas y Cymod Caerdydd: 'Tro i'r Iseldiroedd' gan Alma Roberts, yn Tabernacl, Yr Ais, am 7.00 p.m.

**Mercher, 21 Ebrill**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Cyfarfod Blynyddol y Tŷ, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

## Llongyfarchiadau

- i Ann Beynon, rheolwraig genedlaethol BT yng Nghymru. Yn ddiweddar ymddangosodd ei henw ymhlith dwsin o bobl bwysig fydd yn aelodau o'r Comisiwn Brenhinol i edrych ar sut y gellid diwygio Tŷ'r Arglwyddi. Cyn iddi fynd i'w swydd bresennol, roedd yn bennaeth materion gwleidyddol a rhyngwladol S4C ac wedyn yn gyfarwyddwr datblygu busnes gyda Chorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Mae'n aelod o Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn rheolwraig y National Film and Television School ac yn gyfarwyddwraig Sgrîn, yr asiantaeth cyfryngau.

- i Ffion Jenkins (merch Emyr a Myra Jenkins, Rhiwbina) ar gael ei phenodi'n aelod o Fwrdd y Cyngor Prydeinig.

- i Dr Manon Williams, Radyr (chwaer Ffion Jenkins) ar gael ei phenodi'n Gyfarwyddwr Ymchwil a Gwasanaethau Cyhoeddus y Cynulliad. Hi fydd Pennaeth Darlledu a'r Llyfrgell a bydd yn gweithio'n agos gyda'r cyfryngau.

- i Rhodri Williams, Yr Eglwys Newydd ar gael ei benodi'n gadeirydd Bwrdd yr Iaith i olynu Arglwydd Elis-Tomos. Mae Rhodri'n un o gyfarwyddwyr Agenda sy'n darlledu *Heno* ac yn gwneud llawer o waith da yn y carchar yng Nghaerdydd.

- i Cenydd Amos, Croes Cwrlwys a Carys Roberts, Blaenau Ffestiniog ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Mae'r ddau yn athrawon yn Ysgol Glantaf, Cenydd yn dysgu Cemeg yno a Carys yn dysgu Ffiseg. Pob dymuniad da i'r pâr ifanc yn y dyfodol.

- i Alun Michael ar gael ei ethol yn arweinydd y Blaid Lafur yng Nghymru. Brodor o ardal Bae Colwyn ydyw a bu'n byw am flynyddoedd yn Rhiwbina. Bu ei wraig Mary'n gadeirydd Cylch Ysgolion Meithrin Rhiwbina'r adeg honno a chafodd eu pum plentyn addysg Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae Aelwen, eu merch, yn gwneud gwaith dyngarol yn Ne Affrica. Bu ei hanes yn *Y Dinesydd* beth amser yn ôl.

- i Dr Alun Owens ('Y Parchedig Pop') ar gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn. Mae ganddo ddoethuriaeth mewn Cemeg o Brifysgol Caerdydd, ac ar hyn o bryd y mae'n gynhyrchydd gyda Radio Cymru. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ar 1 Ebrill.

- i Dafydd Jones o'r Eglwys Newydd ar gael ei benodi'n uwch is-deitlydd a chyfieithydd gyda chwmni Testun. O'i bencadlys yn Heol Siarl, mae'r cwmni yn gyfrifol am lawer o waith is-deitlo S4C ac am gylchgrawn teletestun y sianel. Mae gan Dafydd brofiad helaeth o is-deitlo nid yn unig yng Nghymru, ond hefyd yn Iwerddon a'r Alban ar gyfer teledu Gwyddeleg a Gaeleg.

## Diolch am Roddion

Diolch yn fawr iawn i Eglwys Salem, Treganna, Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro, a Chymdeithas Gymraeg Rhiwbina, ynghyd â rhai unigolion, am eu rhoddion hael i'r *Dinesydd* yn ddiweddar. Heb eich cymorth chwi a'ch bath, ni fyddai modd inni barhau i gyhoeddi'r *Dinesydd*. Anfoner pob rhodd, yn fawr a mân, at ein Trysorydd: Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## Hunangofiant Gwleidydd

Cyhoeddwyd hunangofiant difyr gan y gwleidydd o Grangetown, Paul Flynn, aelod seneddol Gorllewin Casnewydd er 1987. *Baglu 'Mlaen* yw teitl y gyfrol, a hi yw'r ddeunawfed yn y gyfres o hunangofiannau, 'Cyfres y Cewri', a gyhoeddir gan Wasg Gwynedd. Yn grwt di-Gymraeg yng Ngholeg Illtud Sant, yr ysgol ramadeg Babyddol yn y Sblot, daeth Paul Flynn dan gyfaredd ei athro Cymraeg, y diweddar Ddr Glyn M. Ashton: 'Yn ddyn ecsentrig, cloff ac yn cymryd snisin, cafodd y llysenw "Gyma Ashton" trwy gyfuno ei flaenlythrennau G M A a'r gair "dyma". Roedd yn athro dawnus a doedd neb tebyg iddo am adrodd stori.' Aeth Paul Flynn ymlaen i astudio'r Gymraeg yn y chweched dosbarth ac yna am ychydig yn Adran y Gymraeg yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Dywed am y cyfnod hwnnw: 'Teimlwn fod cael fy nysgu gan y cewri Saunders Lewis a Griffith John Williams gyfwerth â chael gwersi Saesneg gan Shakespeare.'

## Gwobrau'r Mileniwm

Y mae'r Cyngor Prydeinig wedi sefydlu Gwobrau'r Mileniwm i'r Ifainc, er mwyn caniatáu i bobl ifainc ennill profiad rhyngwladol a'u datblygu eu hunain mewn modd a fydd yn cyfoethogi eu cymunedau lleol. Am fanylion pellach, cysyllter â Siân Thomas yn Swyddfa'r Urdd yn Cross Hands (ffôn: 01269-845705; e-bost: sdat@urddxhands.demon.co.uk).

Yn ogystal, y mae'r CSV mewn partneriaeth â Chomisiwn y Mileniwn yn cynnig gwobrau i helpu gwirfoddolwyr ifainc i sefydlu prosiectau cymunedol amrywiol. Am fanylion pellach, cysyllter â Branwen Miles ar 01222-666737 (e-bost: CSVCymru@dial.pipex.com).

## Merêd yn y Ddinas

Bu Merêd, sylfaenydd *Y Dinesydd*, yn y ddinas yn ddiweddar. Roedd yn Ysgol y Merched, Llandaf, yn diddanu cynulleidfa luosog o gyn-fyfyrwyr Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, mewn darlith ar 'Ambell Gân'. Yr hyn a wnaeth oedd dilyn hynt ambell gân yr arferai ei fam ac eraill eu canu 'slawer dydd a manylu ar ddatblygiadau ac addasiadau, gan ganu ei ffordd yn ei ddull hamddenol, arferol drwy'r cyfan, a'i wraig Phyllis Kinney, yn ei helpu o bryd i'w gilydd. Cadeiriwyd y noson gan Roy Saer ac roedd y trefniadau yng ngofal Dilys a Wynne Lloyd.

## Canolfan Ddiplomyddol i Gaerdydd

Iwerddon yw'r wlad gyntaf i sefydlu canolfan ddiplomyddol lawn yng Nghymru, a hynny yng Nghaerdydd. Mae'r datblygiad hwn yn deillio o'r newidiadau cyfansoddiadol mawr sydd ar droed ar hyn o bryd, ac yn enwedig y bwriad i sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol a Chyngor yr Ynysoedd. Bydd y symudiad hwn yn gymorth i hybu cysylltiadau economaidd, diplomyddol a diwylliannol rhwng y ddwy wlad. Gobeithio y gwelwn wledydd eraill yn dilyn esiampl Iwerddon cyn hir.

## Cydymdeimlwn

- â Falmai Griffiths a'r teulu, Cwm Nofydd, Rhiwbina, ar farw mam Falmai, Harriet Davies, yn 88 oed yn ddiweddar. Treuliodd Mrs Davies y rhan fwyaf o'i bywyd yn ardal Llandysul ond daeth i fyw yn ymyl ei merch rai blynyddoedd yn ôl pan ddechreuodd ei hiechyd ballu. Roedd Mrs Davies yn wraig ddiymhongar a diwylliedig, yn un a garai'r pethe'n angerddol. Daeth llu mawr i'w harwyl yn Llandysul.
- ag Ian Miller, Treganna a gollodd ei fam-gu yn Essex yn ddiweddar. Mae Ian yn un o uwch-swyddogion y Swyddfa Gymreig ac yn aelod yn Eglwys Dewi Sant.

## Mair Elvet Thomas



Ym mis Rhagfyr cefais y fraint o dalu teyrnged yn y gwasanaethau i ddiolch am fywyd Mair Elvet Thomas yn Ebeneser, Caerdydd ac yng nghapel Rhosycaerau, ger Abergwaun, lle y gosodwyd hi i orffwys gyda'i phriod, y diweddar W. C. Elvet Thomas.

Anodd iawn yw ceisio crynhoi'r cyfan y gellid ei ddweud am Mair i ychydig eiriau; yn wir, nid hawdd yw cyfleu mewn geiriau o gwbl unrhyw deyrnged sy'n wir deilwng ohoni.

Yn 1915 ganed Mair yn Nantymoel lle roedd ei thad, y Parchedig R. T. Gregory yn weinidog. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg y Merched, Y Porth, cyn mynd ymlaen i Goleg y Brifysgol, Caerdydd, ac ennill gradd Dosbarth Cyntaf yn y Gymraeg. Yna dan arweiniad yr Athro Griffith John Williams, enillodd ei M.A. ar Eisteddfod y Fenni - sylfaen ei llyfr safonol *Afiaith yng Ngwent*, a enillodd iddi Wobr Goffa Ellis Griffith. Cyhoeddodd hefyd lyfr Saesneg ar y traddodiad Cymraeg yng Ngwent a bydd pawb yn cofio am ei gwaith arbennig fel golygydd y gyfrol, *Merched ein Beirdd*, a gyhoeddwyd ym 1988 pan ddaeth Mudiad Merched y Wawr yn ugain oed.

Bu Mair yn athrawes ymroddedig ar hyd ei gyrfa - yng Nghaerfyrddin ac yna am flynyddoedd yn Bennaeth Adran yn Ysgol Ramadeg y Merched, Y Barri. Fel ei phriod, Elvet, bu'n gyfrwng i droi disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg i fod yn Gymry Cymraeg da.

Pan fyddai Mair yn dod i gredu mewn gwerth unrhyw fudiadau ac achosion da byddai'n barod i ymroi'n ddiflino i hybu'r gwaith hwnnw. Bu'n Swyddog Cenedlaethol Merched y Wawr am wyth mlynedd; yn Drysorydd Cylch; yn Drysorydd Sir yr Urdd am ugain mlynedd - tra ar yr un pryd yn cyflawni llu o ddyletswyddau eraill. Talwyd teyrnged i'w gwaith yn dod i'r adwy ac yn rhedeg yr Academi Gymreig gan yr Athro Bobi Jones. Am flynyddoedd bu'n gymorth i Elvet pan oedd e'n olygydd *Y Llusern*, cylchgrawn Eglwys Ebeneser, a phan fethodd e gyda'r gwaith daeth hithau eto i'r adwy. Rhyngddyn nhw rhoesant ddeugain mlynedd o wasanaeth i'r *Llusern*.

Diolch am hyn i gyd. Ond braint yw diolch hefyd am berson o safonau cadarn, disigl. Doedd dim ofn ar Mair i fod yn eithafol oherwydd roedd hi'n byw ac yn ymddwyn bob amser yn unol â'i daliadau. Diolch hefyd am yr hiwmor tyner ac am un oedd yn llawn cydymdeimlad ac yn aml yn rhoi mynegiant i'r cydymdeimlad mewn ffyrdd ymarferol trwy ymateb i angen rhai llai ffodus, ymhell ac yn agos.

*Maxwell Evans*

Dyma'r englyn a luniodd ei brawd, Havard, er cof amdani, ac a gynhwyswyd ar daflen ei gwasanaeth angladdol:

Mewn dadl hi fu afradlon ei hymroi
I'r Gymraeg a'i dewrion;
Ei hiaith a fu afiaith hon,
A'i chael wrth fodd ei chalon.

*Havard Gregory*

## Genedigaeth

Cafodd Menna a Siôn Owain Jones, 4 Tai'r Ysgol, Treborth, Bangor, anrheg Nadolig gynnar y llynedd, sef Garn Owain, a ddaeth iddyn nhw yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Gor-ŵyr i Lydia a Garnet Protheroe, Caerfyrddin a Molly Kilpatrick, gynt o Gaerdydd. Ŵyr cyntaf i Alun a Helen Daniel, Penarth ac Arfon a Louise Jones, Wrecsam.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Gilbert Ruddock



Rhian a Gilbert Ruddock ger Loch Lomond, Medi 1993.

Colled fawr inni fel Cymry yn y Brifddinas oedd marwolaeth ein cyfaill Gilbert Ruddock. Hanai o ardal y Rhath. Ef oedd unig fab Ernest ac Emily ac anodd credu y deuai o gartref di-Gymraeg. Tra oedd yn Ysgol Uwchradd Cathays daeth o dan ddylanwad W. C. Elvet Thomas ac yno y dysgodd Gymraeg. Roedd hyn yn drobwynt yn ei hanes gan i'r Gymraeg agor drysau i fydoedd newydd llenyddiaeth, barddoniaeth, hanes a diwylliant Cymru, a thrwythodd ei hun yn y pethau hyn.

Graddiodd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd ac yna fe aeth am ddwy flynedd i Ddulyn fel darlithydd, lle y dysgodd Wyddeleg cyn treulio blwyddyn yn gweithio ym Mhrifysgol Cymru Bangor. Dychwelodd i Gaerdydd i weithio fel cynorthwy-ydd ymchwil mewn tafodieitheg o dan y Bwrdd Gwybodau Celtaidd. Yn 1969 ennillodd M.A. am 'Astudiaeth Seinyddol o Dafodiaith Hirwaun, ynghyd â geirfa'. Yn yr un flwyddyn fe'i penodwyd yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd, ac yno y bu hyd ei ymddeoliad yn 1990. Yn ei ymchwil arbenigai ar gywyddau'r canol oesoedd a ffrwyth ei lafur yw'r gyfrol *Dafydd Nanmor* (1992).

Yr oedd y Gymraeg yn agos at ei galon, ymhyfrydai ynddi ac mewn mynegiant clir ohoni. Meddai ar Gymraeg rhywiog a geirfa doreithiog. Adlewyrchid hyn yn glir yn ei gyfrolau barddonol sef, *Y Funud Hon*, *Cwysi*, *Hyn o Iachawdwriaeth* a *Troad y Rhod*. Yn ei gerddi gwelir ei feistrolaeth o'r Gymraeg a'i feddwl craff, treiddgar a dadansoddol ar waith.

Roedd yn Gristion o argyhoeddiad ac ymhlith ffyddloniaid Ebeneser. Bu'n genedlaetholwr brwd a garai ei genedl yn angerddol. Ymdrechodd trwy gydol ei oes i hybu buddiannau ei wlad a bu'n aelod gweithgar o Blaid Cymru. Gŵr bonheddig ydoedd, hynaws a diymhongar, a mawr yw'r golled ar ei ôl. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i weddw Rhian a'i ferched Gwennan a Meinwen yn eu hiraeth.

*Alun Tudur*

## Cymanfa Ganu

Mae Eglwys Ebeneser yn ymarfer ar hyn o bryd tuag at Gymanfa Ganu yr Annibynwyr a gynhelir yn Ebeneser ddydd Sul, 28 Mawrth 1999. Bydd cymanfa'r plant yn y bore a chymanfa'r oedolion yn yr hwyr. Yr arweinydd fydd Helen Wyn.

## Aelod Seneddol yn rhannu Swper Nadolig

Gŵr gwadd swper Nadolig Ieuenctid Salem, Treganna, oedd Aelod Seneddol Gorllewin Caerdydd, Mr Rhodri Morgan. Thema'r swper blynyddol ydyw cofio, ac i bwysleisio hynny cafodd rhai swper go iawn tra oedd y gweddill yn bwyta bara a dŵr. 'Pwdin' y noson oedd danfon dros gant o lythyrau i garchororion cydwybod ar draws y byd, a chasglwyd £100 ar gyfer CASH (Cardiff Action for the Single Homeless).

## Sêr yn Salem

Bu cyngerdd 1998 yn un llwyddiannus iawn - y gorau eto yn ôl llawer! Cymerwyd rhan gan blant Ysgol Pen-cae eleni a da yw'r cyfle a roddir yn flynyddol i'r ysgolion Cymraeg yn eu tro nid yn unig i gael llwyfan y tu allan i'w hysgol i ddangos eu doniau ond hefyd i adael i'r cyhoedd werthfawrogi'r gwaith arloesol a gyflawnir gan ein hysgolion Cymraeg. I'r ysgolion Cymraeg ac i ymroddiad y rhieni a'r athrawon y mae'r diolch fod cystal graen ar ysgolion Sul y ddinas a'r cyffiniau.

Swynwyd y gynulleidfa gref gan ganu soniarus Caryl Parry Jones a Heather Jones. Braint oedd cael gwrando ar eu canu hudolus. Yr ydym yn ddyledus iawn i bawb a gymerodd ran eu bod yn fodlon rhoi o'u hamser i'n diddanu. Derbyniodd y tenor, Teifryn Rees, Llanelli, wahoddiad i gymryd rhan yn 'Sêr yn Salem' 1998 pan gyfarfu â Mrs Doreen Thomas mewn Cymanfa Ganu yn Columbus, Ohio yn yr haf! A chawsom fwynhad mawr yn gwrando arno yn canu rhai o'r hen ffefrynnau.

Coronwyd y noson fawr gan Gôr Caerdydd dan arweiniad Gwawr Owen. Rhyfeddod oedd clywed Caryl yn ymuno â'r côr i gloi'r noson - a gweld fod rhai o ddisgyblion ifainc Pen-cae yn gyfarwydd â'r geiriau ac yn ymuno yn y gân! Digon i godi gwallt eich pen - ac eto'n deyrnged i'r talent sydd gennym yn ein mysg. Braint i bob un a oedd yno oedd cael y fath wledd! Llywyddwyd y noson gan Arfon Haines Davies.

Mae ein diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at y noson - gan gynnwys y noddwyr a'n cefnogodd yn hael iawn. Rhaid talu diolch arbennig i Swyddfa'r Post am eu haelioni. Oni bai am ymdrechion Doreen Thomas, ni fyddai'r fath lwyddiant ar y cyngerddau a gynhaliwyd yn Salem am bedair blynedd ar ddeg ar y Sadwrn cyntaf ym mis Rhagfyr. A diolch arbennig i'n cyfeillion ymhob un o eglwysi Caerdydd a werthodd docynnau drosom ac i bawb a ymatebodd i'r cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r gyngerdd - nid lleiaf gan *Y Dinesydd* - ac a ddaeth i Salem atom. Ar drothwy'r Nadolig, pa ffordd well i godi £1300 tuag at anffodusion y Trydydd Byd. Edrychwn ymlaen at eich cefnogaeth yng nghyngerdd 1999.

*Richard Hall Williams*

## Swper, clonc a chân

Ganol mis Chwefror bu noson o swper, clonc a chân yn festri Eglwys Dewi Sant. Daeth nifer sylweddol ynghyd i fwynhau'r danteithion a'r pethau. Roedd yr adloniant yng ngofal y Parchedig Maxwell Evans.



Rhodri Morgan AS yn westai Swper Nadolig Ieuenctid Salem yng nghwmni'r Parchg D. Haydn Thomas, Robin Gwyndaf a threfnwyr y noson, Dai James, John Morgan ac Ethni Jones.

# NEWYDDION YR URDD




## Cwrs Pêl-droed i Ferched

Am y tro cyntaf i'r Urdd yng Nghaerdydd trefnwyd cwrs pêl-droed i ferched ysgolion cynradd Cymraeg y Sir yn Athrofa Chwaraeon Cymru, Caerdydd yn ystod hanner tymor. Cafwyd ymateb da i'r cwrs ac yn ystod y prynhawn daeth pedwar o chwaraewyr tîm Cymru dan 16 i ymweld â'r merched ac i gynnig cyngor. Mae'r Urdd yn cynnal Clwb Pêl-droed i ferched yn Ysgol Glantaf bob nos Fercher rhwng 5.30 pm a 6.30 pm. Mae croeso i aelodau newydd.



Cwrs pêl-droed yr Urdd i ferched gyda rhai aelodau o dîm pêl-droed merched dan 16 oed Cymru



## Cwrs Animeiddio 16+

Cynhaliwyd cwrs animeiddio am dridiau yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd yn ystod hanner tymor ar gyfer disgyblion 6ed dosbarth ysgolion uwchradd Cymraeg de-ddwyrain Cymru. Roedd y cwrs yn cael ei redeg gan Owen Stickler ac Aron Evans (Swyddog Ieuenctid yr Urdd). Pwrpas y cwrs oedd dysgu sgiliau sylfaenol animeiddio ac yna aeth y myfyrwyr ati i greu fideo pop a cherddoriaeth o'u dewis trwy ddefnyddio'r [illegible] 'igidol diweddaraf.

## Cwrs Hyfforddi Pêl-rwyd 16+

Yn ystod hanner tymor trefnwyd cwrs hyfforddi pêl-rwyd ar y cyd ag WNA ar gyfer merched 6ed dosbarth ysgolion uwchradd de-ddwyrain Cymru. Hyfforddwraig y diwrnod oedd Melanie Tuckwell, Swyddog Datblygu Pêl-rwyd Cymru.

Cafwyd ymateb gwych i'r diwrnod ac ar ddiwedd y dydd cafodd y merched dystysgrif yn dangos eu bod wedi llwyddo yn y cwrs i hyfforddi merched oedran cynradd. Mae'r Urdd yn barod wedi trefnu cwrs hyfforddi tennis a phêl-droed ar gyfer yr oedran 16+. Bydd mwy o gyrsiau yn cael eu trefnu yn y dyfodol wedi llwyddiant y tri hyn.




Cwrs Hyfforddi Pêl-rwyd 16+

## Gig yr Urdd yng Nghlwb Ifor Bach

Nos Sadwrn, 13 Chwefror cynhaliwyd gig yr Urdd yn Nghlwb Ifor Bach. Artistiaid y noson oedd *Topper* a *Bigleaves* a Huw Stephens oedd y DJ. Cafwyd ymateb gwych, gyda Chlwb Ifor 'dan ei sang'! Codwyd £580 tuag at darged Sir Caerdydd a'r Fro. Mae'r Urdd yn bwriadu trefnu gig arall adeg y Pasg.

**Dyddiadau Eisteddfodau'r Sir**

| | |
|---|---|
| Cynradd - Caerdydd a'r Fro | 20 Mawrth |
| Uwchradd - Caerdydd a'r Fro | 27 Mawrth |

Croeso i'r cyhoedd ddod i'r Eisteddfodau.

# YSGOL GLANTAF

**Trip y Llydawyr**

Yn hwyr iawn nos Wener, 5 Chwefror, fe gyrhaeddodd bws o Lydawyr Lantaf ar ôl taith hir o Landerneau. Wedi blino'n lân, fe aethant i gysgu'n syth ar ôl cyrraedd ,cartrefi eu ffrindiau newydd. Ond y diwrnod canlynol roedden nhw'n chwilfrydedd i gyd yn crwydro o gwmpas y dre gyda ni'r Cymry. Ddydd Sul fe gwrddon ni i gyd yn Hollywood Bowl i gael gêm o fowlio deg, yna draw i Harry Ramsdens am fwyd. I Techniquest yr aethon nhw ddydd Llun, a Bae Caerdydd. Pan aethon nhw i Bwll Mawr a Chaerffili ddydd Mawrth roedd llawer o eira o gwmpas felly fe brofon nhw dywydd amrywiol iawn yn ystod eu hymweliad byr. Ddydd Mercher roedden nhw yn y dre eto, y tro hwn i weld y Castell cyn mynd ymlaen i Sain Ffagan. Y noson honno fe aethon ni a'n Llydawyr i gyd i rinc Caerdydd i sglefrolio. Yn ffodus roedd disgo'n cael ei chynnal yno y noson honno, a oedd yn weithgaredd delfrydol ar gyfer y noson olaf. Y bore canlynol - yn rhy fuan o lawer - bu'n rhaid ffarwelio â nhw yn y maes parcio. Ar ôl llawer o dynnu lluniau a chofleidio (yn ôl yr arfer Ffrengig, wrth gwrs) i ffwrdd â nhw yn ôl i Lydaw, gan aros yng Nghaerfaddon ar y ffordd. Ein tro ninnau fydd hi cyn hir i fynd i aros yn Landerneau a gloywi ychydig ar ein Ffrangeg - *j'espère!*

Diolch i'r Adran Ffrangeg am drefnu'r cyfan. *Merci beaucoup!*

*Manon Hefin -10 Dewi 1*



Ffarwelio â'r Llydawyr ym maes parcio Glantaf

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Elen Mair Thomas ar ennill ysgoloriaeth Price Davies i Brifysgol Cymru Aberystwyth a Catrin Mears, Siân Stephens a Hywel Williams ar ennill gwobrau teilyngdod ar sail eu perfformiad yn Arholiadau'r Ysgoloriaethau Mynediad.

**Arian i'r Fenter**

Cyhoeddwyd yn ddiweddar fod Menter Caerdydd ymhlith y mentrau iaith a fydd yn derbyn arian gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer y flwyddyn ariannol 1999/2000. Dyfarnwyd grant o £10,000 i'r Fenter i gefnogi ystod eang o brosiectau a gweithgareddau er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd.

**Cofeb i Newyn Mawr Iwerddon**

Ddydd Gŵyl Badrig, 17 Mawrth, dadorchuddir Cofeb Genedlaethol Cymru i holl ddioddefwyr Newyn Mawr Iwerddon. Dadorchuddir y gofeb, sef croes Geltaidd a wnaed yn Iwerddon o garreg galch Wyddelig, ym Mynwent Cathays am 11.00 a.m. Rhoddwyd y gofeb gan gwmni Mossford, cwmni o Gaerdydd a fu'n gerflunwyr cofgolofnau er 1821.

Y gwasanaeth hwn yw'r olaf mewn cyfres o ddigwyddiadau a drefnwyd dros y pedair blynedd diwethaf gan Fforwm Cymru y Newyn er mwyn nodi fod 150 o flynyddoedd er y newyn mawr a laddodd o leiaf miliwn o bobl Iwerddon rhwng 1845 a 1849.

Trefnodd y Fforwm ddiwrnod astudio llwyddiannus yn nghapel y Tabernacl, Yr Ais, ddydd Sadwrn, 27 Chwefror. Ymhlith y siaradwyr yr oedd Denzil John (gweinidog y Tabernacl), Jeff Williams (Cyfarwyddwr Cymorth Cristnogol Cymru), Conor O'Riordan (Prif Gonswl Iwerddon yng Nghymru), a'r Chwaer Patricia Maxwell, a dreuliodd flynyddoedd yn gweithio ymhlith tlodion Sierra Leone.

***Rhyfeddaf Fyth . . .***

Prif awdurdod Cymru ar Ann Griffiths yw Dr Wyn James, Cadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd* a darlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Yn ddiweddar, lansiwyd ei olygiad newydd o emynau a llythyrau Ann Griffiths, *Rhyfeddaf Fyth*, ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd. Gwasg Gregynog, y wasg gain o wlad Ann Griffiths, yw cyhoeddwyr y llyfr, ac fel y gellid ei ddisgwyl gan y wasg honno, y mae'r gyfrol wedi'i chynhyrchu'n grefftus eithriadol. Mae'r llyfr hefyd yn cynnwys lluniau hyfryd gan yr artist Rhiain Davies a gwerthfawrogiad o waith Ann Griffiths gan y Canon A. M. Allchin. Argraffiad cyfyngedig o 350 o gopïau a gyhoeddwyd - 250 mewn rhwymiad chwarter lliain am £95 a 100 mewn rhwymiad chwarter lledr am £180 - a gellir eu harchebu trwy anfon at Wasg Gregynog, Y Drenewydd, Powys SY16 3PW. Ond rhaid brysio, gan fod dros dri chwarter y copïau eisoes wedi eu gwerthu!

# YSGOL PLASMAWR

(< tud 1) Hyfforddwyd côr Elfed gan eu pennaeth llys Miss Eurgain Dafydd. Mae'n amlwg bod yr ymarferion wedi bod yn fuddiol gan mai hwy a enillodd gystadleuaeth Côr yr Ysgol eleni. Enillwyd llu o gystadlaethau ganddynt gan gynnwys y parti llefaru.

O lys Crwys y daeth llenor Cymraeg yr ysgol eleni, sef Lowri Hughes o Flwyddyn 7. Ysgrifennodd ddarn o farddoniaeth ardderchog yn dwyn y teitl 'Y Mwnci'. Dywedodd Miss Eurgain Llwyd Dafydd fod gwaith Lowri yn dangos sensitifrwydd mawr, a'i bod wedi rhyfeddu bod disgybl ifanc fel Lowri yn medru cydymdeimlo ag anifeiliaid yn y fath ffordd. Roedd Mr Simon Davies (pennaeth llys Crwys) wrth ei fodd pan glywodd fod ei lys yn mynd i gael gymaint o farciau ychwanegol!

Cafodd llys Nantlais nifer o fuddugoliaethau yn ystod y diwrnod ac fe gafodd Dr Nia Griffiths ei phlesio'n fawr gan y disgyblion a gynrychiolodd ei llys. Enillodd y llys gystadleuaeth y sgets a'r côr bechgyn.

Hoffem ddiolch i Mr Alun Guy, Mrs Menna Gwyn a Mrs Gwawr Davies am gytuno i feirniadu ar y diwrnod. Roedd yn braf cael clywed ganddynt fod y disgyblion a'r staff yn dalentog a'u bod wedi mwynhau bod yn ran o ddathliad diwylliedig a oedd ag awyrgylch arbennig iawn iddo.



Rhai perfformwyr Eisteddfod cyntaf Plasmawr

## Noson Hen Galan

Penderfynodd y Gymdeithas Rieni drefnu noson Hen Galan i ddathlu dyfodiad y flwyddyn newydd. Fel arfer, fe gafwyd noson o adloniant a gloddesta gwych. Cytunodd y rhieni a'r cyfeillion a ymunodd â ni fod y noson wedi bod yn llwyddiannus dros ben.

Paratowyd bwyd arbennig iawn gan gynnwys mochyn wedi ei rostio a bwydydd eraill wedi eu trefnu gan Mrs Rhian Hacker. Trefnwyd adloniant arbennig gan *Jac-y-do*. Roedd pawb yn dawnsio o fewn eiliadau! Mae gennym staff ifainc ac egnïol iawn yn yr ysgol ac fe achubwyd ar y cyfle i ofyn iddynt ddiddanu'r rhieni. Trefnwyd 'Dawns Tŷ Coch, Caerdydd' ganddynt ac fe gytunodd pawb ein bod yn lwcus iawn i gael staff mor ddawnus yn yr ysgol.

Roeddwn yn freintiedig i gael Phil Harries a'i wraig Mags i'n diddanu. Cytunodd y ddau i chwarae'r ffliwt a'r delyn fel cyfeiliant i Siriol Wilde. Mae'r ddau ohonynt yn brysur iawn. Mae Mags yn chwarae'r delyn ar hyd a lled Ewrop ac mae Phil yn brysur yn paratoi i berfformio'r ddrama *Y Madogwys* yn fuan.

Hoffai'r Gymdeithas Rieni estyn gwahoddiad i chi i noson o *gabaret* yng ngofal Johnny Tudor a'r grŵp *Bandada* ar 20 Mawrth yn Ysgol Plasmawr. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Siriol Wilde neu'r Gymdeithas Rieni.

**Gair o ddiolch oddi wrth Eglwys Minny St, Caerdydd**

Cafwyd noson hyfryd dan nawdd cymdeithas ddiwylliannol yr eglwys ar 9 Chwefror a ninnau'n cael cyfle i groesawu rhai o ddisgyblion Ysgol Plasmawr ynghyd â'u prifathro, Geraint Rees a nifer o'u hathrawon. Ein braint oedd cael gwrando ar nifer o'r doniau amrywiol sydd yn amlwg ar gael yn yr ysgol newydd hon. Diolch iddynt am ddod atom ac am roi noson wrth ein bodd.

## Mega!

Daeth y grwp pop *Mega* i'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn pan oeddem yn sefydlu'r ysgol. Bellach, maent yn gyfeillion mynwesol i nifer o ferched ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9! Mae Miss Rachel Pursglove (pennaeth Blwyddyn 6 a 7 yr ysgol) wedi bod yn trafod pwysigrwydd croesawu disgyblion Blwyddyn 6 yr ysgolion cynradd i Ysgol Plasmawr. Fel rhan o'r fenter honno, gwahoddwyd Blwyddyn 6 yr ysgolion (gyda chaniatâd merched Blynyddoedd 7, 8 a 9 wrth gwrs) i gyngerdd yn ein hysgol i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen. Roedd y fenter yn un llwyddiannus iawn, gyda disgyblion yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn cyfathrebu'n hyderus â'i gilydd. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y gweithgareddau nesaf sydd yn cynnwys mabolgampau yn yr haf a gwersi i Flwyddyn 6 gan yr athrawon uwchradd.



Cawsom gymorth gan nifer o ddisgyblion Blwyddyn 9 sydd yn rhan o gynllun Dug Caeredin yr ysgol. Trefnwyd y disgo gan Steven Davies a Carl Marsh.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

dan ofal B.D. Harries

## BWRLWM BRO EIRWG

*Dyma rai o uchelfannau bywyd Ysgol Bro Eirwg yn ystod 1998:*

Enillodd tîm Blwyddyn 6 y gystadleuaeth 'Pendroffobia'. Cafodd Mrs Cole a'r tîm lawer o hwyl yn stiwdio HTV ac ennill gwerth £300 o nwyddau i'r ysgol.

Enillodd Franseca Flower (Bl. 5) wobr arbennig iawn, sef ysgoloriaeth i'r ysgol ddawns 'Urdang Academy' yn Covent Garden, Llundain.

Bu nifer o'r disgyblion yn llwyddiannus yng Ngŵyl Nofio Llanrhymni ym mis Gorffennaf. Dyma lun dau ohonynt, sef Cartier a Joseph:



Cynhwyswyd gwaith plant Bro Eirwg mewn arddangosfa o waith plant ysgolion cynradd Caerdydd yng Nghanolfan Gelf yr Eglwys Norwyaidd yn y Bae yn ystod yr haf.


Treuliodd Blwyddyn 6 wythnos yng Ngwersyll Llangrannog ym mis Hydref.

Treuliodd Blwyddyn 3 ddiwrnod ym mis Medi yng Nghastell Henllys, Sir Benfro. Y nod oedd eu hysbrydoli ar gyfer astudio'r Celtiaid. Dyma lun o rai o'r plant yn plethu wal o wiail:



Enillodd yr Adran Feithrin wobr yng nghystadleuaeth 'Ysgolion yn Eu Blodau' ('Cardiff in Bloom').





Llongyfarchiadau i Emma Price (ffliwt), Rhodri ac Aneurin Davies (pres) a Clare Spearing (pres) ar gael eu dewis yn aelodau o Gerddorfa a Band Pres y Sir.

Plannwyd dros fil o fylbiau o gwmpas yr ysgol ym mis Tachwedd gan blant yr ysgol ynghyd â Mr David Williams, Cadeirydd Cymdeithas y Rhieni a'r Athrawon. Cafodd y bylbiau eu rhoi gan Elusen Marie Curie.





Yn ystod yr haf a'r hydref bu Cwmni Teledu Apollo yn ffilmio tair rhaglen deledu yn yr ysgol. Bu'r babanod yn canu hwiangerddi, rhai o'r plant hŷn yn coginio gyda Dudley ar gyfer y rhaglen 'Dudley Bach', ac eraill yn ffilmio ar gyfer 'Tecwyn y Tractor'.


Fel rhan o'n hymgyrch i gryfhau ein cysylltiadau â byd busnes, buom yn llythyru â nifer o gwmnïau lleol er mwyn gofyn am nawdd i brynu gwisgoedd newydd i'r timau pêl-rwyd. Ymatebodd cwmni NTL CableTel yn gyflym ac yn gadarnhaol iawn, gan gynnig swm sylweddol i'r ysgol. Erbyn hyn mae gan y merched wisgoedd crand yn lliwiau'r ysgol gyda logo NTL CableTel arnynt. Diolch i'r cwmni am eu haelioni.



# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies


## Y Bêl Gron

### O Bantycelyn at Ddeleila



Ddechrau tymor Pencampwriaeth y Pum Gwlad, y broffwydoliaeth oedd yr enillai Cymru ddwy o'u gornestau o leiaf - a thair o bosibl - gan orffen y tymor cyn ymweld ag Ariannin ddiwedd mis Mai yn ail yn y tabl. Nid fy mhroffwydoliaeth i oedd honno er nad anghytunais â hi. Fy mhroffwydoliaeth yn awr, wythnos cyn chwarae Ffrainc, yw nad enillwn ni ornest o gwbl yn y Bencampwriaeth eleni, ac ansicr dros ben yw cael buddugoliaeth yn Treviso yn erbyn yr Eidal. Pe na byddai safon chwarae'r blaenwyr yn gwella gant-y-cant, afresymegol fyddai disgwyl inni ennill nac yn erbyn y Ffrancod, na'r Saeson ar 11 Ebrill (dydd Sul, gyda llaw).

Anodd credu bellach i Gymru wneud cystal yn erbyn De Affrica yn Wembli ym mis Tachwedd: ar y blaen o 14-0 ar ôl 26 munud - cyfartal hanner amser wedi i'r dyfarnwr roi cais cosb hollol anghyfiawn i Dde Affrica - 20 pwynt yr un a thri munud ar ôl. Ai breuddwydio yr wyf? Collwyd yr ornest yn y diwedd, mae hi'n wir, ond gallesid ei hennill - a phle'r ydym yn awr. Pe cawswn i ddewis y tîm i chwarae Ffrainc, buasai Kevin Morgan yn gefnwr, Dai Llewelyn neu Paul John yn fewnwr, Andy Moore yn glo yn lle Chris Wyatt (a hwnnw'n wythwr yn lle Scott Quinnell). A phwy fuasai'n faswr? Dyna'r cwestiwn anodd; os y bwriad yw chwarae gornest pymtheg dyn, nid Neil Jenkins a ddylai wisgo'r rhif 10, ac os na chwaraeir felly (hynny yw, gadael i'r wythwr godi'r bêl o fôn y sgrym dro ar ôl tro a cheisio rycio trwy'r amser) colli a wnawn ni. **Ni allwn ni rycio**. Rhaid i mi enwi maswr felly, ond gan i Jenkins chwarae 44 o weithiau yn y safle, a thros drigain i gyd, ni chafodd neb arall gyfle i ddatblygu. Yr oedd Kevin Bowring, cofiwch, yn ansicr ynglŷn â'r maswr gan roi sawl cyfle i Arwel Thomas, ond ni wn erbyn hyn ai Arwel yw'r dyn ai peidio. Jenkins amdani felly am weddill y tymor, ysywaeth, ond dylid arbrofi'n sicr cyn daw'r hydref a Chwpan y Byd. Meddyliwch am y llinach aur fu'n gwisgo'r Rhif 10 - ers y Rhyfel diwethaf yn unig, Glyn Davies, Cliff Morgan, David Watkins, Barry John, Phil Bennett! Dyna wir ddagrau pethau, onid e?



Tybed a newidia Graham Henry ei agwedd tuag at y lein cyn cwrdd â Ffrainc? Yr oedd gwir angen newid y tactegau ar ôl gornestau'r Alban ac Iwerddon: yr oedd angen dau neidiwr a dal y meddiant wedi ei ennill gan hyrddio ymlaen yn awr ac yn y man yn lle pasio'r bêl yn syth at y mewnwr bob tro. Ni ddylid beio hyfforddwr am bopeth sy'n anghywir ar y cae, ond dylai fod yn ddigon cryf i sicrhau bod pawb yn cadw at y cynllun lle mae hynny'n bosibl. Mae lle bob amser i arbrofi, i chwarae'n reddfol â'r ddawn fawr honno fu gennym erioed - sy'n dod â ni at Bantycelyn. Er i'r Anthem atseinio'n ddigon soniarus o amgylch Wembli'r gaeaf hwn, gwael oedd canu 'Cwm Rhondda' a'r emynau eraill a'r caneuon traddodiadol. Ie'n wir, 'Deleila' a aeth â hi, ac mae hynny'n dweud y cyfan am ein rygbi rhyngwladol ar hyn o bryd: ple'r mae'r angerdd - y weledigaeth - yr afiaith? Ni all Henry ddod â'r rheini'n ôl.

**Hwyl Haf Rhag 1999 - Yn eisiau**

Gweithwyr deinamig a brwdfrydig i weithio fel arweinyddion a swyddogion chwarae yng Nghaerdydd a'r Fro. Cysylltwch â Tim Pearce (01446) 748948 (Y Fro) neu Ethni Jones (01446) 760383 (Caerdydd). Cyfweliadau fis Ebrill.

## Pêl-droed

### Caerdydd, Cymru a'r Rheolau

Er bod Caerdydd yn parhau ar frig y drydedd adran a thri phwynt o fantais dros Gaergrawnt, mae ychydig o bryder ynglŷn â'i chwarae yn y gemau diwethaf. Ers llwyr lorio Brentford ar y Sadwrn olaf o Ionawr o 4-1, gemau cyfartal a gafwyd yn Plymouth ac yn erbyn Halifax ar Barc Ninian, a cholli o'r unig gôl ar faes anodd Barnet - yn ôl pob beirniad, gemau y dylasai Caerdydd fod wedi eu hennill yn drwyadl - a'r prif ofid: chwarae creadigol canmoladwy hyd at y cwrt cosbi, ac yna methiant o flaen y gôl.



Un pryder arall: mae chwech o'r chwaraewyr yn wynebu gwaharddiad os cyrraedd un rhybudd (carden felen) arall - a gallasai hyn orfodi newidiadau yn y tîm na fyddai'n fanteisiol.

O ran y gemau sy'n weddill mae naw oddi cartre - Caergrawnt, Brighton, Leyton Orient a Rotherham yn eu plith - gemau anodd bob un, a chwe gêm gartre. Mae'n bwysig felly beidio ag ildio pwyntiau ar Barc Ninian. 'Hir yw'r ffordd a maith yw'r mynydd' eto - ond o galondid bydd pedwar tîm yn dyrchafu ar ddiwedd y tymor - y cyntaf, ail a thrydydd yn syth - a'r pedwerydd at y seithfed yn brwydro yn y gemau ail gyfle.

I droi at Gymru - mae'n ymddangos mai nhw, neu Ddenmarc, sy'n debygol o gyrraedd rowndiau terfynol Cwpan Ewrop gyda'r Eidal, sy'n ffefrynnau i ennill y Grŵp. Felly mae'r gêm gartre yn erbyn Denmarc yn allweddol bwysig.

Onid yw'n warthus fod Cymdeithas Pêl-droed Cymru wedi hyd yn oed ystyried chwarae'r gêm yn Anfield, pan ddylsai'r gêm, doed a ddelo, fod ar dir Cymru? Trachwant eto - elw cyn y cyfle gorau i gyrraedd y rowndiau terfynol!

Mae'n wir bod ailystyried wedi bod, a newid meddwl a nodi Parc Ninian ar gyfer y gêm - ond hyn ar ôl i'r chwaraewyr ddatgan eu barn nhw. Oni ddylsai'r Gymdeithas a Bobby Gould (sy'n hynod dawedog ynglŷn â hyn oll) fod wedi gofyn am farn y chwaraewyr **cyn** clustnodi maes yn Lloegr?

Bellach mae UEFA yn gwrthod caniatáu'r newid - ac apêl yn y fantol gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru. Trychineb arall nad oedd ei angen gan Gymdeithas Bêl-droed ein gwlad.

Ond o leia', beth bynnag y canlyniad, ni fydd angen ailchwarae'r gêm - fel y gorchmynnwyd i Arsenal a Sheffield United wneud yn ddiweddar yng Nghwpan Lloegr oherwydd anneallt wriaeth chwaraewr newydd Arsenal.

Cyfartal ar y pryd - anaf i un o chwaraewyr Sheffield, ei golwr yn cicio'r bêl allan o chwarae yn fwriadol, er mwyn i'r chwaraewr a anafwyd dderbyn triniaeth. Y disgwyl oedd i'w dîm dderbyn y bêl yn ôl o dafliad Arsenal. Ond ni ddigwyddodd hyn ac fe sgoriodd Arsenal o'r tafliad - ac felly'r twrw a'r trafferthion. Arsène Wenger wedyn (rheolwr Arsenal) oedd y cyntaf i ofyn am ailchwarae'r gêm er tegwch. Fe'i cefnogwyd gan y Gymdeithas Bêl-droed a FIFA - er na fu torri ar unrhyw reol.

Onid yw'n bryd felly gynnwys atodiad syml yn y llyfr rheolau - fel na ddigwydd sefyllfa gyffelyb byth eto?

*Howard Spriggs*

## Y Cylch Llyfryddol

Rhiain Phillips oedd gwestai'r Cylch yng nghyfarfod mis Ionawr, un a gafodd gyfle i grwydro'r byd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddai'n hoffi darllen hanes eraill a fu'n ymweld â gwledydd tramor, ond wrth deithio'i hunan cafodd brofiadau i ddotio arnyn nhw, a chyhoeddodd rai o'r rhain mewn llyfrau megis *Yng Ngwyll Nihhon*, *Chwedlau Burma*, *Cefndir* ac *Yn Erbyn yr Haul*. Daeth ag ambell beth yn ôl o wlad arall, a dangosodd i ni luniau lliw hardd o'i gwaith ei hun, wedi'u peintio ar bapur 'washi' o Siapan.

Bu ganddi ddiddordeb erioed mewn pobl, ac ar ei theithiau cafodd gyfle gwych i ddod i nabod rhai o drigolion y parthau dieithr hynny ac i ddeall eu gwahanol ffyrdd o fyw. Gwelai bopeth trwy lygaid Cymraes.

Clywsom hefyd am ei diddordeb mewn sgrifennu - i bapurau newydd a chyfnodolion ac ar gyfer y cyfryngau ac ati, a thalodd deyrnged gynnes i nifer a ddaeth yn ffrindiau mawr iddi megis Gwilym R., Mathonwy Hughes, Bryan Martin Davies, Jennie Eirian ac, wrth gwrs, Eirian ei hun. Noson ddiddorol dros ben.

* * *

Cawsom wledd eto ym mis Chwefror pan ddaeth y geiriadurwr enwog, Dr Bruce Griffiths, ar ymweliad â'r Cylch. Fe, wrth gwrs, sydd bennaf gyfrifol am *Geiriadur yr Academi: The Welsh Academy English-Welsh Dictionary*, er ei fod yntau'n ddigon parod i gydnabod yr help a gafodd dros gyfnod hir gan ysgolheigion a chyfeillion eraill, yn arbennig Dafydd Glyn Jones.

Bu'n astudio nifer o eiriaduron a gyhoeddwyd yn y gorffennol, gan, er enghraifft, William Salesbury, Dr John Davies o Fallwyd, John Walters, Daniel Silvan Evans, William Owen Pughe a Walter Spurrell, a sylweddolodd yn fuan mor anghyflawn oedd pob un, ac y byddai mawr angen llenwi bylchau. Fel enghraifft cyfeiriodd at y gair Saesneg *row* a gyfieithwyd mewn un geiriadur fel "ffrwgwd, terfysg, rhes, rhestr, rhwyfo" ac ati (dim sôn am "cweryl") - heb gyfeirio o gwbl at ba wahanol ystyron o'r gair Saesneg a gyfatebai i'r amrywiol fersiynau Cymraeg hyn. Cyfeiriodd Bruce hefyd at y geirfâu niferus a gyhoeddwyd gan wahanol gyrff, heb fawr o gysoni rhyngddynt, gan greu dryswch i'r defnyddiwr - mae o leia bum casgliad o gyfieithiadau o eiriau sy'n ymwneud â cherddoriaeth mewn bod!

Bu hefyd yn siarad â phobl gyffredin am wahanol eiriau ac ymadroddion Cymraeg a oedd yn gyfarwydd iddyn nhw ond i fawr neb arall! Clywsom am wraig a synnai nad oedd y gair "pego" yng ngeiriadur yr Academi - term ardaloedd y pyllau glo am arwyddo i dderbyn tâl dôl pan fyddai pwll glo ar stop a dim gwaith i'r glowyr. Gan ffermwyr mewn mart y cafodd y term a arferent wrth sôn am *freemartin* ac sydd bellach yn ei eiriadur, a chyfeillion eraill a gynigiodd iddo dermau Cymraeg am *cat's cradle, apple-pie bed*, ayyb, tra esboniai eraill eto ystyr termau fel "crefydd hen geffylau".

Doedd Bruce ddim am fathu geiriau newydd ond pan fyddai rhaid - ond pam? Onid bathiad yn y gwraidd, meddai, yw pob gair a ddefnyddiwn?

*D. Gwyn Jones*

## Y Deisen Afalau Gymreig

Y mae darllenwyr *Y Dinesydd* yn tarddu o lawer man yng Nghymru – o'r de a'r gogledd, y dwyrain a'r gorllewin – a rhai ohonoch, mae'n siŵr, yn ddynion a menywod, yn hoff o goginio, a rhai wedi sylweddoli, bellach, bod peth o'r bwyd a wneir yn eich ardal enedigol chi yn arbennig i'r ardal honno. Beth am inni ddechrau defnyddio'r *Dinesydd* i drosglwyddo gwybodaeth am y bwydydd hyn i'n cyd-ddinasyddion yng Nghaerdydd?

Cefais innau, un tro, wahoddiad i dreulio amser gyda chyfeillion yn Llannerch-y-medd yn Sir Fôn ac yno rhoddwyd i mi deisen fach felys a oedd yn hollol ddieithr i mi. 'Teisan siwgwr' oedd ei henw, meddid, a byddent yn ei rhoi gyda dysglaid o de i rywun a alwai i mewn am sgwrs fach. Teisen arbennig i siroedd Gwynedd yw hon, yn ôl fy ffrindiau yn Sir Fôn ac yr oedd mor neis nes imi ofyn am y rysáit. A byddaf finnau yn ei gwneud yn dra aml, yma yng Nghaerdydd.

Yr wyf fi'n enedigol o Nantgarw yng Nghwm Taf, saith milltir o Gaerdydd, a chofiaf glywed oedolion y pentref yn dweud pethau tebyg am ddau fath o deisen a oedd yn boblogaidd yn ein plith. Yr oedd un ohonynt, ym marn gwŷr y pentref, er nad yn arbennig i'n rhan ni o Gwm Taf, yn enghraifft o'r dull Cymreig o wneud y deisen hon. Pa deisen oedd honno, meddech? Wel, teisen afalau – tarten afalau, fel y bydd rhai'n dweud. Ie'n wir! Teisen afalau!

Erbyn hyn, yr wyf wedi cael cyfle i holi pobl, yn enwedig rhai mewn oedran, mewn rhannau eraill o Gymru ac wedi dod i dderbyn barn cogyddion Nantgarw eu bod yn gwneud teisen afalau yn y dull Cymreig. Ac os edrychwch ar y disgrifiad a roddir yn y llyfrau coginio Saesneg, fe welwch fod eu dull yn wahanol i'r un a roddir yma. Dyma, felly, rysáit y deisen afalau Gymreig fel y'i cefais gan wŷr Nantgarw:

*Deunydd:*

| | |
|---|---|
| 2 bwys o afalau digoni | 12 owns o flawd codi |
| 6 owns o fargarîn neu fenyn | 1 wy |
| 4-5 llwyaid bwrdd (at flas y cogydd) o siwgr i felysu'r afalau | ychydig laeth |

*Dull:*

1. Y peth cyntaf i'w wneud yw prynu'r afalau, a phwysleisid yn Nantgarw fod yn rhaid eu prynu a'u coginio un diwrnod *cyn* gwneud y deisen, neu o leiaf sicrhau eu bod wedi eu coginio ac yn hollol oer cyn gwneud y deisen.

2. *Trin yr afalau*

i) Eu pilio a'u sleisio i sosban, ac ychwanegu tua hanner dysglaid/cwpanaid o ddŵr atynt.
ii) Eu coginio'n llwyr yn y sosban, gan eu troi'n gyson.
iii) Ychwanegu'r siwgr atynt a gadael iddynt i oeri'n llwyr – hyd drannoeth, fel arfer.

3. *Y toes*

i) Rhwbio'r braster i'r blawd yn y dull arferol.
ii) Curo'r wy a digon o laeth i wneud digon o wlybwr i wlychu'r toes.
iii) Ychwanegu'r gwlybwr at y blawd a'i gymysgu nes troi'n does.
iv) Rolio hanner y toes allan i faint plât coginio.
v) Rhwbio'r plât â saem ac ychwanegu'r toes yn gymen a thacluso'r ymyl.
vi) Arllwys yr afalau ar y toes; *weithiau* bydd ychydig o'r afalau dros ben.
vii) Darparu hanner arall y toes i fynd dros yr afalau; tacluso'r ymyl.
viii) Gwasgu'r fforc o gwmpas ymyl y toes i'w addurno.
ix) Os oes ychydig o'r wy-a-llaeth ar ôl, ei frwsio dros y toes i'w wlychu ychydig (neu frwsio'r toes ag ychydig o laeth) a sgeintio siwgr mân (*caster*) drosto.
x) Dodi'r deisen yn y ffwrn (sydd eisoes wedi ei chynhesu) ar y silff uchaf (marc nwy 5 neu 6; trydan 180) a'i gadael 20-30 munud i goginio.

Y tro nesaf, rhoddaf rysáit y deisen arall, teisen a oedd ym marn gwŷr pentref Nantgarw yn un a oedd yn arbennig i'n rhan ni o Gwm Taf . . .

*Ceinwen H. Thomas*

# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222



## EGLWYS Y TABERNACL
## YR AIS CAERDYDD

*Bydd Côr yr Eglwys*
*yn cyflwyno*

# GLORIA

*gan*

## *VIVALDI*

***Nos Fawrth, 30 Mawrth***
*I ddechrau am 7.30 p.m.*

*Tocynnau:*
*Oedolion - £4.00 :: Plant - £2.00*

*Croeso i Bawb*



**SWYDDFA'R POST**

**THE POST OFFICE**

## CANOLFAN IAITH GYMRAEG SWYDDFA'R POST

Os hoffech gysylltu â ni yn Gymraeg i gael manylion am y gwasanaethau sydd ar gael ac i wneud ymholiadau:

ffoniwch

# 0345 468 469

SWYDDFA'R POST   Post Brenhinol   Royal Mail   PARCEL-FORCE WORLDWIDE



**Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Plasmawr**

Psst! Wyt ti wedi clywed?
Mae C.R.A.P. yn cynnal noson arall o adloniant difyr!
Dewch i weld pam mae pawb yn mwynhau'r nosweithiau yma

# CABARET

yng ngofal

## 'BANDADA'

Nos Sadwrn, 20fed o Fawrth, 1999

Dewch i ddawnsio gyda ni

Neuadd yr Ysgol
7.30 tan yn hwyr

Am ragor o fanylion cysylltwch â Mrs. Siriol Wilde
(01222) 405499